

JONES, GWILYM CERI (1897 - 1963), gweinidog (MC) a bardd

Enw: Gwilym Ceri Jones
Dyddiad geni: 1897
Dyddiad marw: 1963
Priod: Mary Jones (née Symmons)
Rhiant: Ellen Jones
Rhiant: William Jones
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog (MC) a bardd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Barddoniaeth
Awdur: Gomer Morgan Roberts

Ganwyd 26 Mehefin 1897 yn Newgate, plwyf Llangunllo, Ceredigion, mab William ac Ellen Jones. Addysgwyd ef yn ysgol Rhydlewis, ysgol ramadeg Llandysul, a Choleg Diwinyddol Aberystwyth. Ordeiniwyd ef yn 1922, a gweinidogaethodd yng Nghwm-parc (1922-28), Minffordd (1928-32), Llanwrtyd (1932-36), Port Talbot (1936-47), Clydach-ar-Dawe (1947-58). Priododd, 1934, Mary Symmons, Abertawe, a ganwyd un mab iddynt. Bu farw 9 Ionawr 1963 yn Llansamlet.

Yr oedd yn bregethwr craff a gwreiddiol, a galw mawr am ei wasanaeth, ond ar ôl anhwylder tost amharwyd ar ei leferydd. Troes ei allu creadigol wedyn i farddoni, gan arbenigo yn y mesurau caeth a chyhoeddi ei gynhyrchion yn y papurau wythnosol a'r cylchgronau Cymraeg. Cystadleuai yn yr Eisteddfod Genedlaethol gan ennill gwobrwyon ar yr englyn a'r rhieingerdd. Ef, yn 1955, ym Mhwllheli a gafodd y gadair am awdl ('Gwrtheyrn'). Ceir awdlau o'r eiddo ef ('Bro'r Ogofeydd') a [T. Ll. Jones](#) yn y llyfryn *Dwy Awdl*, a chyhoeddwyd casgliad o'i farddoniaeth ar ôl ei farw dan y teitl *Diliau'r Dolydd* (1964).

Awdur

Y Parchedig Gomer Morgan Roberts, (1904 - 1993)

Ffynonellau

Blwyddiadur y Methodistiaid Calфинаidd, 1964, 278-79

Y Goleuad, 6 Chwefror 1963

gwybodaeth gan ei chwaer
ac adnabyddiaeth bersonol

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: [Q20751806](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

